# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Troseddau sy'n ymwneud â'r system trwyddedu a chymeradwyo*

### 82 Troseddau

(1) Mae person sy'n torri adran 58 (gofyniad i gael trwydded) yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n torri gwaharddiad a bennir, o dan adran 61(3)(c), mewn hysbysiad a roddir o dan adran 61(1) (dynodi person at ddibenion adran 58(3)) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb achos rhesymol, yn torri'r gofyniad yn adran 69(2) (gofyniad i gael cymeradwyaeth) yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan adran 77 (hysbysiadau stop) yn cyflawni trosedd.

(5) Mae person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan adran 78 (hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded) yn cyflawni trosedd.

(6) Mae person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan adran 79 (hysbysiad camau adfer ar gyfer mangre) yn cyflawni trosedd.

(7) Mae person sydd, mewn cais i ddyroddi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig neu gais am gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd o dan adran 70—

(a) yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol, a

(b) naill ai'n gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu'n ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol,

yn cyflawni trosedd.

(8) Yn is-adran (7), ystyr "yn anwir neu'n gamarweiniol" yw anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(9) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.